


Trawsnewid ADY

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system newydd, symlach a mwy ymatebol i fodloni anghenion plant sydd ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig. Bydd y newidiadau hyn yn digwydd yn raddol dros y blynyddoedd nesaf gan ddilyn yr amserlen isod:



Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ADYTA) wedi cael ei basio a bydd yn cael ei gefnogi gan god newydd. Mae'n amlinellu sut fydd syniadau'r bil yn gweithio'n ymarferol. Cyflwynwyd y cod drafft ym mis Rhagfyr 2018.

Felly, rydym yn awyddus i godi ymwybyddiaeth am y negeseuon allweddol mewn perthynas â'r newidiadau hyn sydd wedi'u hamlinellu isod:

Negeseuon Allweddol:

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anableddau ac Anawsterau Dysgu (AAD). Caiff Plant sydd ag ADY eu cefnogi drwy ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY).
- Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig bellach yn cael eu galw'n gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol.

- Bydd y cod newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed, sy'n golygu y bydd colegau addysg bellach a cholegau annibynnol arbenigol pellach wedi eu cynnwys hefyd nawr (ond nid addysg uwch na phrentisiaethau.)
- Bydd pwyslais ar uchelgeisiau uchel a chanlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.
- Bydd system raddoledig gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau yn cael eu disodli, a bydd gan bob plentyn sydd ag ADY Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn disodli Cynlluniau Addysg Unigol (CAU), Cynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU) neu Gynlluniau Chwarae Unigol (CChU.)
- Caiff y mwyafrif o Gynlluniau Datblygu Unigol eu cynnal gan yr ysgol, ond pan ystyrir ei bod yn afresymol i'r ysgol wneud hynny (megis i'r rheiny sydd ag ADY mwy difrifol neu gymhleth) mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu cynnal nhw.
- Bydd mwy o gyfranogiad gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn y broses o greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol drwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gobeithir y bydd y cydweithio agosach hwn a'r cydweithio mewn partneriaeth yn ein helpu i osgoi unrhyw anghytuno.
- Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg oes angen.
- Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd â Chynllun Datblygu Unigol hawl cyfartal i apelio i'r Tribiwnlys.

Os ydych yn dymuno darllen y cod drafft, mae fersiwn llawn a fersiwn hawdd ei ddeall ar gael drwy ddilyn y ddolen hon: https://beta.llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft?_ga=2.253179338.251415609.1549014110-555180748.1541173951

Os hoffech chi unrhyw wybodaeth neu gyngor ychwanegol, cysylltwch â Chydlynnydd AAA/ADY eich ysgol neu cysylltwch â Y Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni, Cyngor ar bopeth Sir Y Fflint sy'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol yn rhad ac am ddim i rieni drwy ymweld â: <http://flintshirecab.org.uk/about-us/projects/parent-partnership-service/?lang=cy> neu ffoniwch: 01352706840